**Cyngor Tref Y Bala**

**Rheolau Sefydlog**

**Adolygwyd a mabwysiadwyd**

**……………………………………………………………………… (Y Maer)**

# Rheolau Sefydlog

Gwneir y Rheolau Sefydlog hyn gan Gyngor Tref Y Bala (a elwir wedi hyn "y Cyngor") ar gyfer rheoli busnes y Cyngor, yn unol â pharagraff 42 o Atodlen 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ac o ran gwneud contractau, yn unol â thelerau Adran 135 o'r Ddeddf honno. Mae'r adrannau mewn **teip du** yn orfodol ar gyfer y Cyngor llawn

## Mynegai o'r rheolau sefydlog


| | Rheol sefydlog | Tudalen | | Rheol sefydlog | Tudalen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyfarfodydd | 2 | 20 | Amcangyfrifon/preseptau | 17 |
| 2 | Cyfarfodydd arferol y Cyngor | 5 | 21 | Canfasio cynghorwyr ac argymhellion gan gynghorwyr | 17 |
| 3 | Swyddog Priodol | 5 | | | |
| 4 | Cynigion y mae angen rhybudd ysgrifenedig ar eu cyfer | 8 | 22 | Archwilio dogfennau | 18 |
| 5 | Cynigion nad oes angen rhybudd ysgrifenedig ar eu cyfer | 9 | 23 | Gweithgareddau anawdurdodedig | 18 |
| 6 | Rheolau trafodaeth | 10 | 24 | Materion cyfrinachol | 18 |
| 7 | Côd ymddygiad | 12 | 25 | Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 | 18 |
| 8 | Cwestiynau | 12 | 26 | Cysylltiadau gyda'r wasg/cyfryngau | 19 |
| 9 | Cofnodion | 13 | | | |
| 10 | Ymddygiad afreolus | 13 | 27 | Cyswllt gyda Chynghorwyr Sir, Dosbarth ac Unedol | 19 |
| 11 | Diddymu penderfyniadau blaenorol | 14 | 28 | Materion ariannol | 19 |
| 12 | Pleidleisio ar benodiadau | 14 | 29 | Honiadau o dorri'r côd ymddygiad | 20 |
| 13 | Gwariant | 14 | | | |
| 14 | Gweithredu & selio gweithredoedd cyfreithiol | 14 | 30 | Amrywio, diddymu a gohirio rheolau sefydlog | 21 |
| 15 | Pwyllgorau | 15 | 31 | Defnydd o'r Iaith Gymraeg | 22 |
| 16 | Is-bwyllgorau | 15 | 32 | Hawliau Dynol | 22 |
| 17 | Cyfarfodydd anghyffredin | 16 | 33 | Rheolau sefydlog i'w rhoi i gynghorwyr | 22 |
| 18 | Pwyllgorau ymgynghorol | 16 | | | |
| 19 | Cyfrifon a Datganiadau Ariannol | 16 | | | |

# 1 Cyfarfodydd

a **Ni fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn adeiladau sydd, adeg y cyfarfod, yn cael eu defnyddio i gyflenwi alcohol oni bai nad oes unrhyw adeiladau eraill ar gael yn rhad ac am ddim neu am gost resymol. Cedwir yr hawl i gynnal cyfarfodydd mewn man cyhoeddus neu trwy gyfrwng Zoom.**

b **Wrth gyfrif y 3 diwrnod llawn ar gyfer rhoi rhybudd am gyfarfod i gynghorwyr a'r cyhoedd, ni fydd y diwrnod y cyflynwyd y rhybudd, diwrnod y cyfarfod, dydd Sul, un o ddyddiau gwyliau'r Nadolig, un o ddyddiau gwyliau'r Pasg neu ŵyl banc neu ddiwrnod a glustnodwyd ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus yn cyfrif.**

c **Bydd cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd oni bai fod eu presenoldeb yn groes i'r budd cyhoeddus oherwydd natur gyfrinachol y materion a drafodir neu am resymau arbennig eraill. Bydd y cyhoedd yn cael eu heithrio o ran o gyfarfod neu gyfarfod cyfan trwy benderfyniad fydd yn rhoi rhesymau dros eithrio'r cyhoedd.**

d Yn amodol ar reol sefydlog 1(c) uchod, caniateir i aelodau'r cyhoedd gyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau a rhoi tystiolaeth ar gyfer unrhyw eitem o fusnes sydd ar yr agenda.

e Ni fydd y cyfnod amser yn fwy na 5 munud.

f Yn amodol ar reol sefydlog 1(e) uchod, mae gan bob aelod o'r cyhoedd hawl i siarad unwaith yn unig ar gyfer mater sy'n ymddangos ar yr agenda ac ni chaiff siarad am fwy na 5 munud.

g Yn unol â rheol sefydlog 1(d) uchod, ni fydd cwestiwn a ofynnir gan aelod o'r cyhoedd yn ystod sesiwn cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfod yn galw am ymateb na thrafodaeth.

h Yn unol â rheol sefydlog 1(g) uchod, gall y Cadeirydd benderfynu y dylai ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan aelod o'r cyhoedd gael ei gyfeirio at Gynghorydd i gael ymateb llafar neu at weithiwr i gael ymateb ysgrifenedig neu lafar.

i Cynhwysir cofnod o sesiwn cyfranogiad y cyhoedd yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw.

j Bydd person o'r cyhoedd yn codi ei law wrth ofyn i gael siarad a sefyll wrth siarad (ac eithrio pan mae gan berson anabledd neu os yw'n debyg o ddioddef anghysur). Gall y Cadeirydd ganiatáu ar unrhyw adeg i unigolyn eistedd wrth siarad.

k Bydd unrhyw berson o'r cyhoedd sy'n siarad mewn cyfarfod yn cyfeirio ei sylwadau at y Cadeirydd.

l Caniateir i un person o'r cyhoedd yn unig siarad ar unrhyw un adeg. Os yw mwy nac un person yn dymuno siarad, bydd y Cadeirydd yn penderfynu ar drefn y siaradwyr.

m **Ni chaniateir tynnu lluniau, recordio, darlledu na throsglwyddo trafodion cyfarfod trwy unrhyw ddull neu fodd heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor** ymlaen llaw.

n **Yn unol â rheol sefydlog 1(c) uchod, darperir cyfleusterau rhesymol ar gyfer y wasg er mwyn cymryd eu hadroddiad o ran o'r cyfarfod neu'r cyfarfod cyfan y mae ganddynt hawl i fod yn bresennol ynddo**

**o Yn amodol ar reolau sefydlog sy'n nodi i'r gwrthwyneb, gall unrhyw beth a awdurdodwyd gan y Cadeirydd neu y mae angen ei wneud gan, i neu yng ngwydd y Cadeirydd gael ei wneud yn ei absenoldeb gan, i neu yng ngwydd yr Is-Gadeirydd (os oes un).**

**p Bydd y Cadeirydd, os yw'n bresennol, yn llywyddu mewn cyfarfod. Os yw'r Cadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd yr Is-Gadeirydd, os yn bresennol, yn llywyddu. Os yw'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd Cynghorydd a ddewiswyd gan y Cynghorwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod yn llywyddu yn y cyfarfod.**

**q Yn amodol ar reol sefydlog model 1 (y) isod, bydd pob mater mewn cyfarfod yn cael eu penderfynu trwy fwyafrif y Cynghorwyr sy'n bresennol ac yn pleidleisio arno.**

**r** **Gall y Cadeirydd roi pleidlais wreiddiol ar unrhyw fater y cynhelir pleidlais arno, ac os yw nifer y pleidleisiau dros ac yn erbyn yn gyfartal, gall ddefnyddio ei bleidlais fwrw os ddefnyddiodd ei bleidlais wreiddiol ai peidio.**

s **Oni bai fod rheolau sefydlog yn nodi'n wahanol, pleidleisir ar unrhyw fater trwy godi dwylo. Ar gais Cynghorydd, bydd y pleidleisio ar unrhyw gwestiwn yn cael ei gofnodi er mwyn dangos a bleidleisiodd pob cynghorydd yn bresennol ac yn pleidleisio dros neu yn erbyn y cyfryw gwestiwn.** Gwneir cais o'r fath cyn symud ymlaen at y mater nesaf ar yr agenda.

t **Bydd cofnodion cyfarfod yn cofnodi cynghorwyr sy'n bresennol** ac yn absennol. Os, cyn cyfarfod, yw Cynghorydd wedi rhoi rhesymau am ei absenoldeb o'r cyfarfod sydd wedyn yn cael ei gymeradwyo trwy benderfyniad, caiff y cyfryw benderfyniad ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod y rhoddwyd y gymeradwyaeth ynddo.

**u** **Bydd y cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn berthnasol i gynghorwyr trwy gydol y cyfarfod cyfan.**

**v** **Bydd unrhyw fudd sy'n deillio o'r cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor, y mae angen i Gynghorydd ddatgelu ei fodolaeth a'i natur mewn cyfarfod, yn cael ei gofnodi yn y cofnodion.** (*Trowch hefyd at reolau sefydlog 7 ac 8 isod*.)

**w** **Ni chaiff unrhyw faterion eu trafod mewn cyfarfod oni bai fod o leiaf traean o holl aelodau'r Cyngor yn bresennol ac ni fydd y cworwm cyfarfod yn llai na 4 o dan unrhyw amgylchiadau.**

**x** **Os nad oes cworwm mewn cyfarfod ni chaiff unrhyw faterion eu trafod** a bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio. Bydd unrhyw faterion na thrafodwyd mohonynt mewn cyfarfod a ohiriwyd yn cael eu trafod mewn cyfarfod i'r dyfodol.

**y** Ni fydd cyfarfodydd yn parhau am fwy na 3 awr.

# 2 Cyfarfodydd arferol y Cyngor

*Trowch hefyd at reol sefydlog 1 uchod*

a **Mewn blwyddyn etholiad, cynhelir cyfarfod blynyddol y Cyngor ar neu o fewn 14 diwrnod yn dilyn y diwrnod pan mae'r cynghorwyr newydd a etholwyd yn cychwyn ar eu gwaith.**

b **Mewn blwyddyn nad yw'n flwyddyn etholiad, cynhelir cyfarfod blynyddol y Cyngor ar ba ddyddiad bynnag ym mis Mai a ddewisir gan y Cyngor.**

c **Os na bennwyd unrhyw amser arall, cynhelir cyfarfod blynyddol y Cyngor am 6pm.**

d **Yn ogystal â chyfarfod blynyddol y Cyngor, gellir cynnal cyfarfodydd cyffredin eraill yn ystod y flwyddyn ar ba ddyddiadau ac amserau bynnag y mae'r Cyngor yn eu penderfynu.**

e **Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor yw'r mater cyntaf a benderfynir yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor.**

f **Bydd Cadeirydd y Cyngor, oni bai ei fod wedi ymddiswyddo neu wedi cael ei anghymwyso, yn parhau yn ei swydd ac yn llywyddu yn y cyfarfod blynyddol hyd nes yr etholir ei olynydd yng nghyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor.**

g **Bydd Is-Gadeirydd y Cyngor, oni bai ei fod wedi ymddiswyddo neu wedi cael ei anghymwyso, yn parhau yn ei swydd tan yn union wedi ethol Cadeirydd y Cyngor yng nghyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor.**

h **Mewn blwyddyn etholiad, os na chafodd Cadeirydd presennol y Cyngor ei ail-ethol yn aelod o'r Cyngor, bydd yn llywyddu yn y cyfarfod hyd nes yr etholwyd Cadeirydd y Cyngor i'w ddilyn. Ni fydd gan Gadeirydd presennol y Cyngor bleidlais wreiddiol wrth ethol Cadeirydd newydd y Cyngor ond rhaid iddo ddefnyddio pleidlais fwrw os yw nifer y pleidleisiau yn gyfartal.**

i **Mewn blwyddyn etholiad, os cafodd Cadeirydd presennol y Cyngor ei ail-ethol yn aelod o'r Cyngor, bydd yn llywyddu yn y cyfarfod hyd nes yr etholwyd Cadeirydd newydd y Cyngor. Gall ddefnyddio pleidlais wreiddiol wrth ethol Cadeirydd newydd y Cyngor a rhaid iddo ddefnyddio pleidlais fwrw os yw nifer y pleidleisiau yn gyfartal.**

**j** Wedi ethol Cadeirydd y Cyngor ac Is-Gadeirydd y Cyngor yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor, bydd trefn y busnes fel a ganlyn.

i. Mewn blwyddyn etholiad, cynghorwyr yn cyflwyno eu datganiadau derbyn eu swyddi.

ii. Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a derbyn a nodi cofnodion a/neu penderfynu argymhellion a wnaed gan bwyllgorau.

iii. Adolygu trefniadau dirprwyo i bwyllgorau, is-bwyllgorau, gweithwyr ac awdurdodau lleol eraill.

iv. Adolygu cylch gorchwyl pwyllgorau.

v. Derbyn enwebiadau ar gyfer pwyllgorau presennol.

vi. Penodi unrhyw bwyllgorau newydd, cadarnhau'r cylch gorchwyl, nifer yr aelodau (gan gynnwys, os yn briodol, eilydd gynghorwyr) a derbyn enwebiadau ar eu cyfer.

vii. Adolygu a mabwysiadu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol priodol.

viii. Adolygu trefniadau, gan gynnwys unrhyw siartrau, gydag awdurdodau lleol eraill ac adolygu cyfraniadau a wnaed i wariant a ysgwyddwyd gan awdurdodau lleol eraill.

ix. Adolygu cynrychiolaeth ar neu waith gyda chyrff allanol a threfniadau ar gyfer adrodd yn ôl.

x. Adolygu rhestr o dir ac asedau gan gynnwys adeiladau ac offer swyddfa.

xi. Adolygu a chadarnhau trefniadau ar gyfer gwarant yswiriant ar gyfer yr holl risgiau yswiriedig.

xii. Adolygu aelodaeth y Cyngor a/neu weithwyr o gyrff eraill.

xiii. Sefydlu neu adolygu trefniadau cwynion y Cyngor.

xiv. Sefydlu neu adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer trin ceisiadau a wnaed o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998.

xv. Sefydlu neu adolygu polisi'r Cyngor ar gyfer delio â'r wasg/cyfryngau

xvi. Trefnu dyddiadau, amserau a lle cyfarfodydd cyffredin y Cyngor llawn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

# 3 Swyddog Priodol

**a** Bydd Swyddog Priodol y Cyngor naill ai'n (i) glerc neu ba weithiwr arall bynnag a enwebir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd neu (ii) pa weithwyr eraill bynnag a benodwyd gan y Cyngor i gyflawni rôl y Swyddog Priodol yn ystod absenoldeb y Swyddog Priodol. Bydd y Swyddog Priodol a'r gweithiwr a benodwyd i weithredu yn ystod absenoldeb y Swyddog Priodol yn cyflawni'r dyletswyddau a briodolwyd i'r Swyddog Priodol mewn rheolau sefydlog.

**b** Bydd Swyddog Priodol y Cyngor yn gwneud y canlynol.

**i.** **Llofnodi a chyflwyno i gynghorwyr naill ai'n bersonol neu trwy'r post yn eu**

**cartrefi neu trwy ddull electroneg wŷs yn cadarnhau amser, dyddiad, lleoliad ac agenda cyfarfod y Cyngor a chyfarfod pwyllgor** ac is-bwyllgor **ac o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod** ar yr amod fod y cyfryw ebost yn cynnwys llofnodion electronaidd a theitl y Swyddog Priodol].

**ii.** **Rhoi rhybudd cyhoeddus o amser, dyddiad, lleoliad ac agenda o leiaf 3 diwrnod llawn cyn cyfarfod y Cyngor neu gyfarfod pwyllgor** neu is-bwyllgor **(ar yr amod fod y rhybudd cyhoeddus yn cynnwys agenda cyfarfod anghyffredin y Cyngor a gynullwyd gan gynghorwyr yn cael ei lofnodi ganddynt)**.

**iii.** Yn amodol ar reolau sefydlog 4(a)–(e) isod, cynnwys yn yr agenda yr holl gynigion yn y gorchymyn a dderbyniwyd oni bai fod cynghorydd wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig o leiaf 7 diwrnod cyn y cyfarfod yn cadarnhau ei fod yn ei dynnu'n ôl.

**iv.** **Cynnull cyfarfod y Cyngor llawn er mwyn ethol Cadeirydd newydd y Cyngor, oherwydd y daeth y swydd yn wag, yn unol â rheol sefydlog** [**3(b)i**] NEU [3(b)ii] **uchod.**

**v.** Trefnu fod cofnodion cyfarfodydd ar gael i'w harchwilio.

**vi.** **Derbyn a chadw copïau o isddeddfau a wnaed gan awdurdodau lleol eraill.**

**vii.** **Derbyn a chadw datganiadau derbyn swydd gan gynghorwyr.**

**viii.** Cadw copi o gofrestr buddiannau pob cynghorydd ac unrhyw newidiadau iddo a chadw copïau ohonynt fel y byddent ar gael i'w harchwilio.

**ix.** Cadw cofnodion priodol sydd eu hangen cyn ac ar ôl cyfarfodydd.

**x.** Prosesu pob cais a wnaed trwy Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998, yn unol â ac yn amodol ar drefniadau'r Cyngor ar eu cyfer.

**xi.** Derbyn a danfon gohebiaeth gyffredinol a hysbysiadau ar ran y Cyngor ac eithrio pan mae penderfyniad i'r gwrthwyneb.

**xii.** Rheoli'r gwaith o drefnu, storio a chael gafael ar wybodaeth a gedwir gan y Cyngor ar bapur ac ar ffurf electronaidd.

**xiii.** Trefnu i weithredoedd cyfreithiol eu llofnodi gan 2 gynghorydd a'u tystio (*Trowch hefyd at reolau sefydlog 14(a) a (b).*)

**xiv.** Trefnu fod unrhyw daliadau i'w gwneud gan y Cyngor yn cael eu hawdurdodi, eu cymeradwyo a'u cadarnhau'n brydlon yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor.

**xv.** Cofnodi pob cais cynllunio a dderbyniodd y Cyngor ac ymateb y Cyngor i'r awdurdod cynllunio lleol mewn llyfr a gedwir i'r perwyl hwnnw;

**xvi.** Cyfeirio cais cynllunio a dderbyniwyd gan y Cyngor i'r Cadeirydd neu yn ei absenoldeb Is-Gadeirydd y Cyngor] o fewn 2 ddiwrnod gwaith i'w dderbyn i drefnu cyfarfod anghyffredin os yw natur cais cynllunio yn golygu fod rhaid ei drafod cyn cyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

**xvii.** Gweithredu neu gyflawni gweithgarwch neu gyfrifoldebau a orchmynwyd trwy benderfyniad neu sydd wedi'u cynnwys mewn rheolau sefydlog.

# 4 Cynigion y mae angen rhybudd ysgrifenedig ar eu cyfer

**a** Yn unol â rheol sefydlog 3(b)(iii) uchod, ni ellir gwneud unrhyw gynnig mewn cyfarfod onid yw wedi'i gynnwys yn yr agenda ac os yw'r cynigydd wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig o'i gynnwys i Swyddog Priodol y Cyngor o leiaf 7 diwrnod llawn cyn y cyfarfod nesaf.

**b** Gall y Swyddog Priodol, cyn cynnwys cynnig ar yr agenda a dderbyniwyd yn unol â rheol sefydlog 4(a) uchod, gywiro camgymeriadau gramadegol neu deipograffyddol amlwg yng ngeiriad y cynnig.

**c** Os yw'r Swyddog Priodol yn credu nad yw geiriad cynnig a dderbyniwyd yn unol â rheol sefydlog 4(a) yn glir o ran ei ystyr, bydd y cynnig yn cael ei wrthod nes bod cynigydd y cynnig yn ei ailgyflwyno'n ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol mewn iaith eglur a chadarn o leiaf 4 diwrnod llawn cyn y cyfarfod.

**d** Os yw geiriad neu natur cynnig arfaethedig yn cael eu hystyried yn anghyfreithlon neu'n amhriodol, bydd y Swyddog Priodol yn ymgynghori â Chadeirydd y cyfarfod arfaethedig neu, yn ôl y sefyllfa ar y pryd, y Cynghorwyr sydd wedi cynnull y cyfarfod, i ystyried a ddylid cynnwys neu wrthod y cynnig yn yr agenda.

**e** Wedi ymgynghori â'r Cadeirydd neu'r cynghorwyr yn dilyn rheol sefydlog 4(d) uchod, bydd penderfyniad y Swyddog Priodol o ran a ddylid cynnwys y cynnig yn yr agenda yn derfynol.

**f** Bydd rhybudd o bob cynnig a dderbynnir yn unol â rheolau sefydlog y Cyngor yn cael eu rhifo yn y drefn y'u derbyniwyd a'u cofnodi mewn llyfr, fydd ar gael i'w archwilio gan bob cynghorydd.

**g** Bydd pob cynnig a wrthodwyd yn unol â rheolau sefydlog y Cyngor yn cael eu cofnodi i'r perwyl hwnnw trwy nodyn gan y Swyddog Priodol, yn rhoi rhesymau am ei wrthod mewn llyfr pwrpasol, fydd ar gael i'w archwilio gan bob cynghorydd.

**h** Bydd pob cynnig a phenderfyniad yn ymwneud â swyddogaethau statudol, grymoedd a chyfrifoldebau cyfreithlon y Cyngor neu'n ymwneud â mater sy'n effeithio'n benodol ar ardal y Cyngor neu ei drigolion.

# 5 Cynigion nad oes angen rhybudd ysgrifenedig ar eu cyfer

a Gellir gwneud cynigion ar gyfer y materion canlynol heb rybudd ysgifenedig.

i. Penodi person i lywyddu mewn cyfarfod.

ii. Cadarnhau absenoldebau cynghorwyr.

iii. Cadarnhau cywirdeb cofnodion y cyfarfod blaenorol.

iv. Cywiro camgymeriad yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol.

v. Trafod materion, os oes rhai, sy'n weddill o'r cyfarfod diwethaf.

vi. Newid trefn materion ar yr agenda oherwydd rhesymau brys neu gyfleustra.

vii. Symud at y mater nesaf ar yr agenda.

viii. Cau neu ohirio trafodaeth.

ix. Cyfeirio trwy ddirprwyo ffurfiol fater i bwyllgor neu is-bwyllgor neu weithiwr.

x. Penodi pwyllgor neu is-bwyllgor o unrhyw gynghorwyr (gan gynnwys eilyddion) arno.

xi. Derbyn enwebiadau i bwyllgor neu is-bwyllgor.

xii. Diddymu pwyllgor neu is-bwyllgor.

xiii. Nodi cofnodion cyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor.

xiv. Trafod adroddiad a/neu argymhelliad a wnaed gan bwyllgor neu is-bwyllgor neu weithiwr.

xv. Ystyried adroddiad a/neu argymhellion a wnaed gan weithiwr, cynghorydd, arbenigydd neu ymgynghorydd proffesiynol.

xvi. Awdurdodi i weithredoedd cyfreithiol eu llofnodi gan 2 gynghorydd a'u tystio.

xvii. Awdurdodi talu arian i fyny at £0.00 .

xviii. Newid cynnig sy'n berthnasol i'r cynnig gwreiddiol neu sylweddol sy'n cael ei drafod na fydd yn peri iddo gael ei annilysu.

xix. Ymestyn y cyfnod amser ar gyfer areithiau.

xx. Eithrio'r wasg a'r cyhoedd am ran o'r cyfarfod neu'r cyfarfod cyfan.

xxi. Tawelu neu eithrio o'r cyfarfod Gynghorydd neu aelod y cyhoedd oherwydd ymddygiad afreolus.

xxii. Rhoi cydsyniad y Cyngor os yw cydsyniad o'r fath yn ofynnol gan reolau sefydlog.

**xxiii. Atal unrhyw reol sefydlog ac eithrio'r rhai sy'n gyfreithiol ofynnol.**

xxiv. Gohirio'r cyfarfod.

xxv. Penodi cynrychiolwyr ar gyrff allanol a gwneud trefniadau i'r cynrychiolwyr hynny adrodd yn ôl ar weithgareddau cyrff allanol.

xxvi. Ateb cwestiynau gan gynghorwyr.

b Os yw cynnig yn cwympo o fewn cylch gorchwyl pwyllgor neu is-bwyllgor neu o fewn y

grymoedd dirprwyedig a roddwyd i weithiwr, gellir ei gyfeirio at y cyfryw bwyllgor neu is-bwyllgor neu weithiwr ar yr amod fod y Cadeirydd yn penderfynu y gellir delio â'r mater yn y cyfarfod presennol oherwydd brys neu gyfleustra.

# 6 Rheolau trafodaeth

**a** Bydd cynigion a gynhwyswyd ar agenda yn cael eu hystyried yn y drefn yr ymddangosant ar yr agenda oni bai fod y drefn yn cael ei newid yn ôl cyfarwyddyd y Cadeirydd oherwydd hwylustod.

**b** Yn amodol ar reolau sefydlog 4(a)–(e) uchod, ni fydd cynnig yn cael ei ystyried onid yw wedi cael ei gynnig a'i eilio.

**c** Yn amodol ar reol sefydlog 3(b)(iii) uchod, gellir ystyried cynnig a gynhwyswyd ar agenda na chafodd ei gynnig gan y cynghorydd y'i cyflwynodd yn un sydd wedi'i dynnu'n ôl.

**d** Ni fydd cynnig i wella cynnig gwreiddiol yn cael ei ystyried oni bai y rhoddwyd rhybudd priodol ar ôl i'r cynnig gwreiddiol gael ei eilio a bydd rhybudd am y cyfryw welliant, os yw'r Cadeirydd yn mynnu, yn cael ei roi'n ysgrifenedig a'i gyflwyno i'r Cadeirydd a fydd yn penderfynu ym mha drefn y cânt eu hystyried.

**e** Gall Cynghorydd gyflwyno gwelliannau i'w gynnig ei hun. Os yw cynnig eisoes wedi cael ei eilio, rhaid cael cydsyniad yr eilydd er mwyn cynnig gwelliant iddo.

**f** Bydd unrhyw welliant i gynnig naill ai'n:

i. gadael geiriau allan;
ii. ychwanegu geiriau;
iii. gadael geiriau allan ac ychwanegu geiriau eraill.

**g** Ni fydd gwelliant arfaethedig neu a gariwyd i gynnig yn peri i'r cynnig gwreiddiol sydd dan ystyriaeth gael ei ddiddymu.

**h** Dim ond un gwelliant ellir ei ei gyflwyno a'i drafod ar y tro, a bydd trefn eu trafod yn cael ei benderfynu gan y Cadeirydd. Ni ellir cyflwyno unrhyw welliannau eraill i gynnig hyd nes y gorffennwyd trin a thrafod y gwelliant blaenorol.

**i** Yn amodol ar Reol sefydlog 6(h) uchod, gellir trafod un gwelliant neu ragor gyda'i gilydd os yw'r Cadeirydd yn credu mai dyna sydd orau ond pleidleisir arnynt ar wahân.

**j** Yn dilyn rheol sefydlog 6(h) uchod, mae nifer y gwelliannau i gynnig gwreiddiol y gall

cynghorydd eu cyflwyno yn gyfyngedig i un.

**k** Os nad yw gwelliant yn cael ei gario, caiff gwelliannau eraill eu cynnig yn y drefn a benderfynir gan y Cadeirydd.

**l** Os yw gwelliant yn cael ei gario, bydd y cynnig gwreiddiol, wedi'i wella, yn disodli'r cynnig gwreiddiol a hwnnw fydd y cynnig sylweddol y gellir cyflwyno unrhyw welliant arall iddo.

**m** Bydd gan gyflwynydd cynnig neu gyflwynydd gwelliant yr hawl i ymateb, heb fod yn hirach na 3 munud.

**n** Pan gaiff cyfres o welliannau i gynnig gwreiddiol eu cario, bydd gan gynigydd y cynnig gwreiddiol yr hawl i ymateb o ran y cynnig sylweddol ar ddiwedd y drafodaeth ac yn union cyn iddo gael ei roi i bleidlais.

**o** Yn amodol ar reolau sefydlog 6(m) ac (n) uchod, ni all cynghorydd siarad ymhellach ar unrhyw un cynnig ac eithrio i siarad unwaith ar welliant a gynigiwyd gan gynghorydd arall neu i wneud pwynt o drefn neu i roi esboniad personol.

**p** Yn ystod trafodaeth ar gynnig, ni all cynghorydd ond ymyrryd ar bwynt o drefn neu esboniad personol a bydd y cynghorydd y torrwyd ar ei draws yn rhoi'r gorau i siarad. Bydd Cynghorydd sy'n gwneud pwynt o drefn yn cyfeirio at y rheol sefydlog y mae'n credu sydd wedi cael ei thorri neu'n nodi'r afreoleidd-dra yn y cyfarfod y mae'n bryderus yn ei gylch.

**q** Bydd y Cadeirydd yn penderfynu ar bwynt o drefn a bydd ei benderfyniad yn derfynol.

**r** Gyda chydsyniad yr eilydd a/neu'r cyfarfod, gall y cynigydd dynnu cynnig neu welliant yn ôl. Ni all cynghorydd siarad ar y cyfryw gynnig neu welliant oni bai y gwrthodwyd caniatâd i dynnu'r cynnig neu'r gwelliant yn ôl.

**s** Yn amodol ar reol sefydlog 6(o) uchod, pan mae cynnig cynghorydd yn cael ei drafod ni ellir cyflwyno unrhyw gynnig arall ac eithrio:

i. cyflwyno gwelliant i'r cynnig;
ii. symud ymlaen at y busnes nesaf;
iii. gohirio'r drafodaeth;
iv. rhoi'r cynnig i bleidlais;
v. gofyn i berson fod yn dawel neu iddo adael y cyfarfod;
vi. cyfeirio cynnig at bwyllgor neu is-bwyllgor i'w ystyried;
vii. eithrio'r cyhoedd a'r wasg;

viii. gohirio'r cyfarfod;

ix. atal unrhyw reol sefydlog, ac eithrio'r rhai sy'n orfodol.

**t** O ran rheol sefydlog 6(s)(iv) uchod, bydd rhaid i'r Cadeirydd fod yn fodlon yn y lle cyntaf y cafodd y cynnig ei drafod cyn iddo gael ei eilio a'i roi i bleidlais. Bydd y Cadeirydd yn galw am gyflwynydd y cynnig a drafodwyd i ddefnyddio neu ollwng ei hawl i ymateb a bydd yn rhoi'r cynnig i'r bleidlais ar ôl i'r hawl hwnnw gael ei ddefnyddio neu ei ollwng. Ni fydd atal trafodaeth neu'r cyfarfod yn effeithio hawl y cynigydd i ymateb adeg yr ail-gychwyn.

# 7. Côd ymddygiad

*Trowch hefyd at reolau sefydlog 1(d)–(i) uchod*

**a** **Bydd pob cynghorydd yn parchu'r côd ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor.**

**b** Bydd pob cynghorydd yn cael cynnig hyfforddiant ar y côd ymddygiad o fewn 6 mis iddynt gyflwyno eu datganiad yn derbyn y swydd.

**c** **Ni all cynghorwyr ond ymarfer yr hawliau a gynhwysir yn rheol sefydlog 7(d) isod os yw aelodau'r cyhoedd yn cael hawl i (i) wneud sylwadau, (ii) ateb cwestiynau a (iii) rhoi tystiolaeth ynghylch y mater sy'n cael ei drafod.**

**d** **Gall cynghorwyr a chanddynt fudd niweidiol o ran unrhyw eitem o fusnes sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod (i) wneud sylwadau, (ii) ateb cwestiynau a (iii) rhoi tystiolaeth ynghylch y mater sy'n cael ei drafod ond rhaid iddo wedyn adael yr ystafell neu'r siambr.**

# 8. Cwestiynau

a Gall cynghorydd ofyn am ateb i gwestiwn ynghylch busnes y Cyngor ar yr amod y rhoddwyd 7 diwrnod llawn o rybudd o'r cwestiwn i'r Swyddog Priodol.

b Ni fydd cwestiynau nad ydynt yn ymwneud ag eitemau o fusnes ar yr agenda ar gyfer cyfarfod ond yn cael eu gofyn yn ystod y rhan o'r cyfarfod a neilltuwyd ar gyfer cwestiynau o'r fath.

c Bydd pob cwestiwn yn cael ei ofyn a'i ateb heb drafodaeth.

# 9. Cofnodion

a Os yw copi o gofnodion drafft cyfarfod blaenorol wedi cael ei ddosbarthu i gynghorwyr heb fod yn hwyrach na diwrnod cyflwyno'r wŷs i fynychu'r cyfarfod a drefnwyd fe'u derbynnir fel y maent.

b Ni thrafodir cofnodion drafft cyfarfod blaenorol ac eithrio o ran eu cywirdeb. Cyflwynir cynnig i gywiro anghywirdeb yn y cofnodion yn unol â rheol sefydlog 5(a)(iv) uchod.

c Bydd cofnodion, gan gynnwys unrhyw welliant i gadarnhau eu cywirdeb, yn cael eu derbyn trwy benderfyniad ac fe'u llofnodir gan Gadeirydd y cyfarfod ac fe safant yn gofnod cywir o'r cyfarfod y mae'r cofnodion yn ymwneud ag ef.

d Os nad yw Cadeirydd y cyfarfod yn credu fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod y maent yn ymwneud ag ef, bydd yn llofnodi'r cofnodion ac yn cynnwys paragraff fel a ganlyn neu i'r un perwyl:

*“Nid yw Cadeirydd y cyfarfod hwn yn credu fod cofnodion cyfarfod y (     ) a gynhaliwyd ar y [dyddiad] o ran (     ) yn gofnod cywir ond ni chefnogwyd ei farn gan fwyafrif yr (     ) ac fe gadarnhawyd y cofnodion yn gofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.”*

e Os ceir penderfyniad yn cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod, bydd unrhyw gofnodion drafft neu recordiadau o'r cyfarfod yn cael eu dinistrio.

# 10.Ymddygiad afreolus

a Ni chaiff unrhyw berson darfu ar y gwaith o gyflawni busnes mewn cyfarfod nac ymddwyn mewn ffordd dramgwyddus neu amhriodol.

b Os, ym marn y Cadeirydd, y torrwyd rheol sefydlog 10(a) uchod, bydd y Cadeirydd yn mynegi'r farn honno ac wedi hynny gall unrhyw gynghorydd (gan gynnwys y Cadeirydd) gynnig y dylid tawelu'r person neu ei eithrio o'r cyfarfod, a bydd y cynnig, os caiff ei eilio, yn cael ei roi yn syth a heb unrhyw drafodaeth bellach.

c Os na chedwir at benderfyniad o'r fath a wnaed yn unol â rheol sefydlog 10(b) uchod, gall y Cadeirydd gymryd pa gamau bynnag eraill all fod yn rhesymol angenrheidiol i'w orfodi a/neu gall ohirio'r cyfarfod.

# 11. Diddymu penderfyniadau blaenorol

a Ni ellir dadwneud penderfyniad (boed gadarnhaol neu negyddol) y Cyngor o fewn 6 mis ac eithrio trwy gynnig arbennig, y mae'r hysbysiad ysgrifenedig ohono yn cynnwys enwau o leiaf 3 o gynghorwyr y Cyngor, neu trwy gynnig a gyflwynwyd yn rhinwedd adroddiad neu argymhelliad gan bwyllgor.

b Pan ymdriniwyd â chynnig arbennig neu unrhyw gynnig arall a gyflwynwyd yn rhinwedd rheol sefydlog 11(a) uchod, ni ellir cyflwyno cynnig tebyg o fewn 6 mis arall.

# 12 Pleidleisio ar benodiadau

a Pan enwebwyd mwy na 2 berson ar gyfer swydd i'w llenwi gan y Cyngor ac os na chafodd yr un ohonynt fwyafrif clir o bleidleisiau o'u plaid, bydd enw'r person a chanddo/i'r nifer lleiaf o bleidleisiau yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr ac fe gynhelir pleidlais newydd. Aiff y broses hon yn ei blaen hyd nes y rhoddwyd mwyafrif y pleidleisiau o blaid unrhyw un person. Os yw nifer y pleidleisiau'n gyfartal gellir datrys y sefyllfa trwy bleidlais fwrw'r Cadeirydd.

# 13. Gwariant

a Bydd unrhyw wariant a wneir gan y Cyngor yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor.

**b Bydd rheoliadau ariannol y Cyngor yn cael eu hadolygu unwaith y flwyddyn.**

**c Gall rheoliadau ariannol y Cyngor wneud darpariaeth ar gyfer dirprwyo'r gwaith o awdurdodi talu arian ar gyfer cyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor i bwyllgor, is-bwyllgor neu weithiwr.**

# 14. Gweithredu a selio gweithredoedd cyfreithiol

*Trowch hefyd at reol sefydlog 5(a)(xvi) uchod*

a Ni chaiff gweithred gyfreithiol ei gweithredu ar ran y Cyngor oni bai y cafodd ei hawdurdodi trwy benderfyniad.

**Yn unol â phenderfyniad a wnaed yn unol â rheol sefydlog 14(a) uchod, gall unrhyw ddau aelod o'r Cyngor lofnodi, ar ran y Cyngor, unrhyw weithred sy'n ofynnol gan y gyfraith a bydd y Swyddog Priodol yn dyst i'w llofnodion.**

# 15 Pwyllgorau

*Trowch hefyd at reol sefydlog 1 uchod*

a Gall y Cyngor, yn ei gyfarfod blynyddol, benodi pwyllgorau sefydlog a gall ar unrhyw adeg benodi unrhyw bwyllgorau eraill all fod eu hangen, a:

i. bydd yn penderfynu eu cylch gorchwyl;

ii. gall ganiatáu i bwyllgorau bennu dyddiadau eu cyfarfodydd;

iii. bydd yn penodi a phennu cyfnod gwasanaeth cynghorydd neu berson nad yw'n gynghorydd ar bwyllgor o'r fath (oni bai fod penodi pobl nad ydynt yn gynghorwyr yn cael ei wahardd gan y gyfraith) i barhau yn eu cyfryw swyddi heb fod yn hwyrach na'r cyfarfod blynyddol nesaf;

iv. gall benodi eilydd gynghorwyr ar bwyllgor er mwyn cymryd lle cynghorwyr arferol mewn cyfarfod o'r pwyllgor os yw cynghorwyr arferol y pwyllgor wedi cadarnhau i'r Swyddog Priodol 3 diwrnod cyn y cyfarfod na allant fod yn bresennol;

v. ni chaniateir i aelod arferol o bwyllgor y cymerwyd ei le mewn cyfarfod gan eilydd aelod (un unol â rheol sefydlog 15(a)(iv) uchod) gymryd rhan mewn trafodaeth na phleidleisio ar fusnes yn y cyfarfod hwnnw ac ni all siarad ond yn ystod unrhyw sesiwn cyfranogiad cyhoeddus yn ystod y cyfarfod;

vi. gall yn unol â rheolau sefydlog, ddiddymu pwyllgor ar unrhyw adeg.

# 16 Is-bwyllgorau

*Trowch hefyd at reol sefydlog 1 uchod*

a Oni bai fod penderfyniad y Cyngor i'r gwrthwyneb, gall pob pwyllgor benodi is-bwyllgor y bydd ei gylch gorchwyl a'i aelodau yn cael eu penderfynu trwy benderfyniad y pwyllgor.

# 17 Cyfarfodydd anghyffredin

*Trowch hefyd at reol sefydlog 1 uchod*

**a** **Gall Cadeirydd y Cyngor gynnull cyfarfod anghyffredin o'r Cyngor ar unrhyw adeg.**

**b** **Os nad yw Cadeirydd y Cyngor yn cynnull cyfarfod anghyffredin o'r Cyngor neu os yw'n gwrthod gwneud hynny o fewn 7 niwrnod wedi cael cais i wneud hynny gan ddau gynghorydd, gall y ddau gynghorydd hynny gynnull cyfarfod anghyffredin o'r Cyngor. Rhaid i'r hysbysiad cyhoeddus statudol yn dangos amser, lleoliad ac agenda cyfarfod o'r fath gael ei lofnodi gan y ddau gynghorydd.**

**c** Gall Cadeirydd pwyllgor (neu is-bwyllgor) gynnull cyfarfod anghyffredin o'r pwyllgor neu is-bwyllgor ar unrhyw adeg.

**d** Os nad yw Cadeirydd pwyllgor (neu is-bwyllgor) yn cynnull cyfarfod anghyffredin neu os yw'n gwrthod gwneud hynny o fewn 7 diwrnod wedi cael cais i wneud hynny gan 3 cynghorydd, gall y 3 cynghorydd gynnull cyfarfod anghyffredin o bwyllgor (neu is-bwyllgor). Rhaid i'r hysbysiad cyhoeddus statudol yn dangos amser, lleoliad ac agenda cyfarfod o'r fath gael ei lofnodi gan y 3 cynghorydd.

# 18 Pwyllgorau ymgynghorol

*Trowch hefyd at reol sefydlog 1 uchod*

a Gall y Cyngor benodi pwyllgorau ymgynghorol yn cynnwys nifer o gynghorwyr a phobl nad ydynt yn gynghorwyr.

b Gall pwyllgorau ymgynghorol ac unrhyw is-bwyllgorau gynnwys pobl nad ydynt yn gynghorwyr yn unig.

# 19. Cyfrifon a Datganiad Ariannol

a Bydd pob taliad gan y Cyngor yn cael ei awdurdodi, ei gymeradwyo a'i dalu yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor, fydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

b Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn rhoi i bob cynghorydd cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl 31 Mawrth, 30 Mehefin, 30 Medi a 31 Rhagfyr ym mhob blwyddyn ddatganiad yn

crynhoi derbyniadau a thaliadau'r Cyngor ar gyfer pob chwarter a'r gweddillion sydd ar gael ar ddiwedd chwarter. Dylai'r datganiad hwn gynnwys cymhariaeth gyda'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol. Bydd Datganiad Ariannol a baratowyd yn ôl y drefn gyfrifo briodol (derbyniadau a thaliadau, neu incwm a gwariant) ar gyfer blwyddyn hyd at 31 Mawrth yn cael ei gyflwyno i bob cynghorydd cyn diwedd y mis Mai canlynol. Bydd Datganiad Cyfrifon y Cyngor (fydd yn cael ei archwilio'n allanol), gan gynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n ffurfiol cyn 30 Mehefin.

# 20 Amcangyfrifon/praeseptau

a **Bydd y Cyngor yn cymeradwyo amcangyfrifon ysgrifenedig ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf** yn ei gyfarfod cyn diwedd mis Ionawr.

b Bydd unrhyw bwyllgor sy'n dymuno gwario arian yn rhoi amcangyfrif ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol o'r gwariant a argymhellir ar gyfer y flwyddyn nesaf erbyn mis Rhagfyr man pellaf.

# 21 Canfasio cynghorwyr ac argymhellion gan gynghorwyr

a Bydd canfasio cynghorwyr neu aelodau pwyllgor neu is-bwyllgor, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar gyfer swydd yn neu gan y Cyngor, yn anghymwyso'r ymgeisydd rhag cael swydd o'r fath. Bydd y Swyddog Priodol yn datgelu gofynion y rheol sefydlog hon i bob ymgeisydd.

b Ni fydd cynghorydd neu aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor yn cymell person ar gyfer swydd yn neu gan y Cyngor nac yn argymell person ar gyfer swydd o'r fath nac ar gyfer dyrchafiad, ond, er hynny, gall unrhyw berson o'r fath roi geirda ysgrifenedig o allu, profiad neu gymeriad ymgeisydd i'w gyflwyno i'r Cyngor gyda chais am swydd.

c Bydd y rheol sefydlog hon yn berthnasol i dendrau fel pe bai'r person sy'n gwneud y tendr yn ymgeisydd am swydd.

# 22 Archwilio dogfennau

a Yn amodol ar reolau sefydlog i'r gwrthwyneb neu o ran materion sy'n gyfrinachol, gall cynghorydd, at ddibenion ei ddyletswyddau swyddogol (ond nid fel arall), archwilio unrhyw ddogfen ym meddiant y Cyngor neu bwyllgor neu is-bwyllgor, a gofyn am gopi i'r un perwyl. Bydd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor, ei bwyllgorau neu is-bwyllgorau ar gael i'w harchwilio gan gynghorwyr.

# 23 Gweithgareddau anawdurdodedig

a Oni awdurdodir hynny gan benderfyniad, ni fydd unrhyw gynghorydd unigol yn enw neu ar ran y Cyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor yn:

i. archwilio unrhyw dir a/neu adeiladau y mae gan y Cyngor hawl neu ddyletswydd i'w archwilio; nac

ii. yn rhoi gorchmynion neu gyfarwyddiadau.

# 24 Materion cyfrinachol

a Ni fydd cynghorwyr a gweithwyr yn datgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol neu y maen nhw'n credu, neu y dylent wybod ei bod yn gyfrinachol ei natur.

b Gall cynghorydd sy'n torri darpariaethau rheol sefydlog 24(a) uchod gael ei dynnu oddi ar bwyllgor neu is-bwyllgor trwy benderfyniad y Cyngor.

# 25 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

a Bydd pob cais am wybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael ei brosesu yn unol â pholisi'r Cyngor ar drin ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

b Bydd gohebiaeth oddi wrth, a rhybuddion a gyflwynwyd gan, y Comisiynydd Gwybodaeth yn cael eu cyfeirio gan y Swyddog Priodol at gadeirydd y pwyllgor Cyllid. Bydd gan y cyfryw bwyllgor y grym i wneud unrhyw beth i hwyluso cydymffurfiaeth gyda Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gan gynnwys defnyddio grymoedd y Swyddog Priodol ynghylch ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a nodir yn rheol sefydlog 3(b)(x) uchod.

# 26 Cysylltiadau gyda'r wasg/cyfryngau

a Bydd pob cais oddi wrth y wasg neu gyfryngau eraill am ddatganiad llafar neu ysgrifenedig neu sylw gan y Cyngor yn cael ei brosesu yn unol â pholisi'r Cyngor ar gyfer ymdrin â'r wasg a/neu gyfryngau eraill.

b Yn unol â pholisi'r Cyngor ar gyfer ymdrin â'r wasg a/neu gyfryngau eraill, ni fydd cynghorwyr, yn rhinwedd y ffaith eu bod yn gynghorwyr, yn rhoi datganiadau llafar neu ysgrifenedig nac erthyglau ysgrifenedig i'r wasg neu gyfryngau eraill.

# 27 Cyswllt gyda Chynghorwyr Sir, Dosbarth ac Unedol

a Danfonir gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Cyngor, ynghyd ag agenda, at y cynghorydd ar y Cyngor Dosbarth neu Sir neu Unedol [yng Nghymru: Cyngor Bwrdeistref Sirol a Chyngor Sir] sy'n cynrychioli ei ward etholiadol.

b Oni bai fod y Cyngor yn gorchymyn fel arall, danfonir copi o bob llythyr a ddanfonir at y Cyngor Sir at y Cynghorydd Sir sy'n cynrychioli ei ward etholiadol.

# 28 Materion ariannol

a Bydd y Cyngor yn ystyried a chymeradwyo Rheoliadau Cyllidoll yn flynyddol,a fydd yn cynnwys trefniadau manwl ar gyfer y canlynol:

i. y cofnodion cyfrifo a'r systemau rheolaeth fewnol;
ii. y gwaith o asesu a rheoli'r risgiau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu;
iii. gwaith yr Archwilydd Mewnol a derbyn adroddiadau rheolaidd oddi wrth yr Archwilydd Mewnol, y bydd eu hangen o leiaf unwaith y flwyddyn;
iv. cynghorwyr ac etholwyr lleol yn archwilio a chopïo cyfrifon a/neu archebion taliadau y Cyngor;
v. polisïau caffael (yn amodol at reol sefydlog 30(b) isod) gan gynnwys pennu gwerthoedd ar gyfer gweithdrefnau gwahanol pan mae gan y contract werth tybiedig o lai na £60,000.

# 29 Honiadau o dorri’r côd ymddygiad

a Wedi cael gwybod am enghraifft honedig o dorri'r côd ymddygiad bydd y Swyddog Priodol yn ei gyfeirio at bwyllgor a elwir y pwyllgor Safonau

b Pan mae'r wybodaeth yn ymwneud â chŵyn a wnaed gan y Swyddog Priodol, bydd y Swyddog Priodol yn rhoi gwybod i Gadeirydd y pwyllgor Safonau am hynny, a bydd ef/hi, wedi derbyn y cyfryw wybodaeth, yn enwebu person i gyflawni dyletswyddau'r Swyddog Priodol a nodir yng ngweddill y rheol sefydlog hon, a fydd yn parhau i ymdrin â'r mater dan sylw hyd nes y cafodd y gŵyn ei datrys.

c Pan mae'r wybodaeth yn ymwneud â chŵyn a wnaed gan weithiwr (nad y Swyddog Priodol mohono/i) bydd y Swyddog Priodol yn gofalu nad yw'r gweithiwr dan sylw yn ymdrin ag unrhyw agwedd o'r gŵyn.

d Bydd cynnwys yr hysbysiadau yn gyfrinachol ac, i'r graddau y bo modd gwneud hynny'n gyfreithiol, bydd y Cyngor (gan gynnwys y Swyddog Priodol a Chadeirydd y pwyllgor Safonau) yn cymryd y camau a nodir isod, ynghyd â chamau eraill a fernir yn angenrheidiol, i gadw cyfrinachedd.

- i. Drafftio'r gwysion ac agendau mewn ffordd sy'n golygu nad yw hunaniaeth a chynnwys y gŵyn yn cael eu datgelu.
- ii. Gofalu nad yw unrhyw bapurau cefndir sy'n cynnwys yr wybodaeth a nodir yn rheol sefydlog 31(a) uchod yn cael eu gwneud yn gyhoeddus.
- iii. Gofalu fod y cyhoedd a'r wasg yn cael eu heithrio o gyfarfodydd yn ôl y galw.
- iv. Gofalu fod cofnodion cyfarfodydd yn parchu cyfrinachedd.
- v. Ystyried unrhyw gyswllt allai fod ei angen gyda'r person neu gorff a chanddynt gyfrifoldeb statudol i ymchwilio'r mater.

e Ni ddylid ystyried fod rheol sefydlog 31(d) uchod yn gwahardd y Cyngor (boed trwy'r Swyddog Priodol neu Gadeirydd y pwyllgor Safonau neu fel arall) rhag datgelu gwybodaeth i aelodau a swyddogion y Cyngor neu i bersonau eraill pan mae'r cyfryw ddatgeliad yn angenrheidiol er mwyn delio â'r gŵyn neu os yw'n gyfreithiol ofynnol.

f Bydd gan y pwyllgor Safonau y grym i:

- i. ofyn am dystiolaeth ddogfennol ac o fathau eraill gan y person neu gorff a chanddynt gyfrifoldeb statudol i ymchwilio'r mater;
- ii. ofyn am a rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r gŵyn;
- iii. caniatáu i'r aelod dan sylw indemniad ariannol o ran costau cyfreithiol, a fydd yn gydnaws â'r gyfraith ac yn gorfod cael ei gadarnhau gan gyfarfod y Cyngor llawn.

g Bydd cyfeiriadau yn rheol sefydlog 31 at hysbysiad yn cael eu hystyried i olygu

cyfathrebiad o unrhyw fath sy'n ymwneud â chynghorydd yn torri'r côd ymddygiad neu honiad iddo/i wneud hynny.

# 30 Amrywio, diddymu a gohirio rheolau sefydlog

a Gellir atal pob ac unrhyw ran o'r rheolau sefydlog, ac eithrio'r rhai sy'n gyfreithiol orfodol, trwy benderfyniad yn ymwneud ag unrhyw eitem penodol o fusnes.

b Ni fydd cynnig i ychwanegu neu amrywio neu ddiddymu'n barhaol un neu ragor o reolau sefydlog y Cyngor nad ydynt yn gyfreithiol orfodol yn cael ei gario oni bai fod dau draean o'r cynghorwyr mewn cyfarfod o'r Cyngor yn pleidleisio o'i blaid.

# 31 Defnydd o’r Iaith Gymraeg

***Diweddariad yn dilyn trafodaeth Mai 2014:***

Bydd y Cyngor yn trafod y materion yn ei gyfarfodydd yn yr iaith Gymraeg.

*The Council conducts its business in Welsh. Minutes can be made available in English within a reasonable period and on payment of reasonable translation costs on application to the Clerk.*

Os dymuna person sydd ddim yn siarad Cymraeg roi cyflwyniad ar fater ar yr Agenda, mae croeso iddo/iddi wneud hynny yn Saesneg. Os bydd yn dymuno parhau i wrando ar weddill y cyfarfod, disgwylir iddo/iddi ddarparu gwasanaeth Cyfieithydd (ar ei gost ei hun).

*If a person who does not speak Welsh wishes to make a presentation on a matter on the Agenda, he/she is welcome to do so in English. If he/she wishes to listen to the rest of the meeting, he/she is expected to provide his/her own interpreter (at his/her own cost).*

Os bydd y Cyngor yn trefnu cyfarfod ar gyfer y cyhoedd, y Cyngor fydd yn gyfrifol am drefnu gwasanaeth cyfieithu.

*If the Council holds a public meeting, the Council will be responsible for providing a translation service.*

Bydd gohebiaeth yn Saesneg yn cael ei ateb yn Saesneg.

# 32 Hawliau Dynol

Bydd y Cyngor yn ystyried egwyddorion hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar hawliau pobl

# 33 Rheolau sefydlog i'w rhoi i gynghorwyr

a Bydd y Swyddog Priodol yn rhoi copi o reolau sefydlog y Cyngor i gynghorydd wedi derbyn ei ddatganiad yn derbyn ei swydd.

b Bydd penderfyniad y Cadeirydd o ran defnyddio rheolau sefydlog mewn cyfarfodydd yn derfynol.

c Gall methiant cynghorydd i beidio cadw at y rheolau sefydlog fwy na 3 gwaith mewn un cyfarfod olygu y caiff ei eithrio o'r cyfarfod yn unol â'r rheolau sefydlog.